# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-17-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2009**
**Amser: 09.30 - 10.40**
**Lleoliad: Ystafell bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

Michael German AC, Dwyrain De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### Eitem 2: Deisebau newydd

#### (i) P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarth Gorllewin Swydd Gaer / Gogledd-ddwyrain Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Gael tystiolaeth ar y mater yng Ngogledd Cymru

#### (ii) P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am yr ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn eu barn am y mater.

#### (iii) P-03-268 Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Aneurin Bevan

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am yr ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ysgrifennu llythyr atodol at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn:

Sut y caiff y ffin rhwng swyddogaethau uned Mân Anafiadau ac Uned Ddamweiniau ac Achosion Brys ei llunio? Pa fath o ddigwyddiadau y gall pob uned eu trin?

Pa feini prawf a ddefnyddir i nodi a ddarperir y naill fath o uned neu'r llall mewn ysbyty?

Sut y bydd pobl yn gwybod pa fath o uned y dylent fynd iddi pan fyddant yn hunangyfeirio?

Ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am fanylion am sut y caiff gwasanaethau Mân Anafiadau a Damweiniau ac Achosion Brys eu rheoli yn yr ardal, o gofio bod darpariaeth Damweiniau ac Achosion Brys yn yr ardal wedi'u rhannu rhwng dwy Ymddiriedolaeth. Yn benodol, gofyn sut y bydd timau paramedig yn penderfynu ble i fynd â chleifion yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a'i leoliad daearyddol.

### Eitem 3: Y diweddaraf am ddeisebau blaenorol

**(i) P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am gadarnhad o'r dyddiad y disgwylir y bydd Pont Hafren yn dychwelyd i berchnogaeth y cyhoedd

**(ii) P-03-204 Atebolrwydd i'r Cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyd yn gofyn am farn am ymateb y Gweinidog, ac yn gofyn pa feysydd, os o gwbl, yr ystyria'r deisebydd sydd angen eu trafod ymhellach.

**(iii) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn rhoi gwybod iddo am yr ymateb gan y Ganolfan Byd Gwaith

**(iv) P-03-215 Gwahardd digwyddiadau gwleidyddol mewn ysgolion**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd gyda chopi o ateb y Gweinidog ac yn gofyn am ei safbwynt arno.

**(v) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn gofyn am eglurhad am y sylw nad oes ganddynt safbwynt ar y Rheoliadau. A gofyn yn benodol a ydynt yn cyfeirio at y Rheoliadau cyfredol ac a yw'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fferylliaeth wedi ymgynghori â hwy?

Ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am fanylion am ddarganfyddiadau terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac a oes cynlluniau i ddiwygio'r Rheoliadau cyfredol o ganlyniad i'r darganfyddiadau?

**(vi) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pryd y bydd y cyfyngiad yn cael ei adolygu ar y rhan hon o'r A40

**(vii) P-03-240 Gwelliannau i'r A40 yn Llanddewi Felffre**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor :

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am ei safbwyntiau am y cynigion amgen a wnaed gan y deisebydd, gan bwysleisio y byddai penderfyniad pendant y naill ffordd neu'r llall, hyd yn oed mewn egwyddor, yn fuddiol i'r deisebydd

**(viii) P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei farn am yr ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**(ix) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat (trigolion Sir Gaerfyrddin)**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn atodi copi o grynodeb o'r materion a nodwyd gan Aelodau'r Cynulliad ac yn gofyn am eu barn ar y pwyntiau a wnaethpwyd, ac yn benodol y ffaith yr ymddengys bod y broses fabwysiadu yn aneglur.

Geisio cyngor cyfreithiol a oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer i weithredu o dan y pwerau datganoledig cyfredol, yn arbennig o ran y Mesur Rheoli Llifogydd a Dwr

**(x) P-03-255 Darpariaeth addysg anghenion arbennig mewn ysgolion prif ffrwd**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn pa gymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth addysg anghenion arbennig ar waith mewn ysgolion prif ffrwd

Anfon ymlaen gopi o adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am y ddeiseb ddiweddar ar fyfyrwyr ôl-19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i'r deisebwyr er mwyn llywio unrhyw waith ymgyrchu yn y dyfodol ar ddarparu Addysg Anghenion Arbennig yng Nghymru.

**(xi) P-03-262 Academi Heddwch Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth a threfnu i glywed tystiolaeth oddi wrth un neu ddau o sefydliadau heddwch Ewropeaidd

Comisiynu papur gwybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar y dull gweithredu mewn gwledydd eraill ac a fyddai'n ystyried y dull gweithredu a allai fod yn berthnasol yng Nghymru.

## Eitem 4: Adolygu hynt deisebau

**(i) P-03-072 Mesur Gofalwyr Ifanc**

Adolygodd y Pwyllgor y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau’r ddeiseb gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach

**(ii) P-03-092 A465 Ffordd Liniaru i Tafarnaubach**

Adolygodd y Pwyllgor hynt y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ac yn benodol yn gofyn am gopi o’r adroddiad terfynol a gomisiynwyd gan Trafnidiaeth Cymru ac y cyfeiriwyd ato yn yr ohebiaeth a oedd wedi’i chynnwys fel atodiad i lythyr y Gweinidog dyddiedig 25 Mehefin 2008

**(iii) P-03-094 Pwll nofio Edwardsville**

Adolygodd y Pwyllgor hynt y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Penderfynwyd cau’r ddeiseb hon gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach

**(iv) P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru**

Adolygodd y Pwyllgor hynt y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gychwyn trafodaeth bellach ar y mater trwy’r fforwm ar-lein.

Ysgrifennu at y Llywydd yn ei hysbysu y bwriada’r Pwyllgor ail-edrych ar y fforwm ar-lein ar y mater hwn a’i ymestyn.

**(v) P-03-136 Parcio yn ardaloedd y Waun a Birchgrove o Gaerdydd**

Adolygodd y Pwyllgor hynt y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am gopi o’u cynllun teithio cynaliadwy.

**O dan Reol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat.**

## Eitem 5 - Adroddiad drafft ar P-03-197 Achub y Vulcan

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar ddeiseb P-03-197 Achub y Vulcan a’i gymeradwyo.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2009**